

3.3 Y Talmwd a Llenyddiaethau Eraill

Ac eithrio'r Beibl, y Talmwd yw llyfr pwysicaf Iddewiaeth. Hwn, yn nhyb yr Iddew, yw ail sylfaen Iddewiaeth. Ystyr y gair Talmwd yw 'dysgeidiaeth'. Cymerodd y gwaith bum canrif i'w gwblhau a dwy fil o awduron i gynhyrchu ei 3,000,000 neu ragor o eiriau. Crybwyllir ynddo bron bob testun dan haul, a phob agwedd ar fywyd o'r crud i'r bedd, o feidroldeb y corff i anfarwoldeb yr enaid. Ysgrifennwyd ef mewn Aramaeg, iaith lafar Palestina, ond cynhwysir ynddo hefyd nifer hael o eiriau Groeg, Lladin ac iaith Persia.

Nodwedd arbennig o arddull y Talmwd yw ei ddull bachog, cofiadwy, a'r modd y mae'n gwasgu gwirioneddau pwysig a chymhleth i ychydig o eiriau. Nid yw'n hawdd esbonio'r gwaith air am air neu ei ddehongli'n gwbl gywir, ond er gwaethaf hyn, y mae Iddewon yn dysgu rhannau helaeth ohono ar gof, ac yn cyfeirio ato fel 'y gyfraith lafar' am ei fod yn adlewyrchu ysbryd ymarferol y ffydd a'r grefydd. Y mae'r Talmwd, o'r dechrau i'r diwedd, yn pwysleisio'r undod rhwng crefydd a bywyd, a'r berthynas rhwng ffydd a gweithredoedd.



(Llun 6) *Pedwar Rabbi yn trafod y Talmwd.*

(Anne Mainman)

Dyma ychydig enghreifftiau o arddull y Talmwd, a'i ddull o gyflwyno gwirioneddau:

'Tri pheth sy'n cadw'r byd yn ddiogel: gwirionedd, barn a heddwch.'

'Pan saif dyn tlawd wrth dy ddrws, saif Duw ei hun wrth ei ddeheulaw.'

'Pwy bynnag a red ar ôl mawredd, y mae mawredd yn ffoi rhagddo; pwy bynnag a ffyrhag mawredd, y mae mawredd yn rhedeg ar ei ôl.'

'Mae tawelwch yn debyg i gyffes . . .'

'Cosb y celwyddwr yw na chred neb ynddo pan ddywed y gwir.'

'Paid ag addo rhoi i blentyn ac yna anghofio am yr addewid, canys fel hyn y dysgir ef i ddweud celwydd.'

Ceir yn y Talmwd nifer o ddadleuon ar faterion cyfreithiol o bwys mawr i Iddewiaeth yn ei gweithgarwch beunyddiol. Gelwir y dadleuon hyn HALACHAH, hynny yw, 'y llwybr a droediwyd'. Cynigiant arweinïad i'r Iddewon yn eu bywyd crefyddol o ddydd i ddydd. Er enghraifft:

'Dylai dyn lynu wrth y gymdeithas . . .'

'Rhaid i gardodyn sy'n byw ar gardod roi cardod ei hunan.'

Cynnwys y Talmwd hefyd syniaeth grefyddol o'r radd flaenaf, a chyfarwyddiadau moesol ar ffurf damhegion a chwedlau. Gelwir y rhannau hyn wrth yr enw HAGGADAH, hynny yw, 'stori'. Y drefn yw cyflwyno dysgeidiaeth yr oesoedd ar faterion ymarferol o dan y pennawd 'fel y dywedwyd' neu 'fel yr ysgrifennwyd' ochr yn ochr â darn o'r Beibl. Ond yn wahanol i'r HALACHAH nid yw'r HAGGADAH yn rhan orfodol o weithgareddau Iddewiaeth, ond mae'i bwyslais ar fyw bywyd duwiol yn glir:

'A wyt ti yn dymuno adnabod yr Hwn a greodd y byd trwy lefaru "Bydded"? gofynna'r HAGGADAH. 'Dysg yr HAGGADAH, canys trwyddo y deui i adnabod y Sanctaidd Un. Bendigedig fyddo, â i ymlynu wrth ei ffyrdd.'

Darlunnir y gwahaniaeth rhwng yr **HALACHAH** a'r **HAGGADAH** gan y stori hon:

'Daeth Rabbi Abahw a Rabbi Hia ben Aba ynghyd i'r un lle. Darlithiodd Rabbi Hia ar yr Halachah tra pregethodd Rabbi Abahw ar yr Haggadah. Ymadawodd y bobl â Rabbi Hia i ymuno â chynulleidfia Rabbi Abahw. Teimlai Rabbi Hia yn dorcalonnu, a dywedodd Rabbi Abahw wrtho, 'Adroddaf iti ddameg. Daeth dau ŵr i ddinas, un yn gwerthu gemau a'r llall yn gwerthu nwyddau syml angenrheidiol. At bwy y rhedodd y

dinasyddion? Onid at yr hwn a gynigodd iddynt angenrheidiau syml?

Nid un llyfr unffurf yw'r Talmwd ond casgliad o weithiau o gyfnodau gwahanol a mwy yn rhychwantu mil o flynyddoedd. Dosberthir y gwaith yn ddau — y Talmwd Babilonaidd, a olygwyd gan Rabbi Ashi yn athrofa Sura yn Babilon tua'r flwyddyn 500 CC, a'r Talmwd Palestinaidd, a gasglwyd gan Rabbi Jochanan yn Tiberias tua'r flwyddyn 300 CC.

Ceir ym mhob Talmwd (dysgeidiaeth) ddwy ran — y Misna (ail adnod) a'r Gemara (cwbllhad). Golygydd y Misna oedd Rabbi Jwda a ysgrifennai mewn Hebraeg llafar. Mae ynddo 63 o draethodau wedi eu rhannu rhwng chwe adran gan ymwneud â thestunau mor amrywiol ag amaethyddiaeth, dyddiau cysegredig, bywyd teuluol, cyfraith wladol a throseddol, gwasanaeth y deml, purdeb a deddfau iechyd. Cwblhawyd y Misna tua 200 OC.

Esboniad ar y Misna yw'r Gemara. Mae'n ymhelaethiad ar y Misna a cheir ynddo hefyd agweddau ar ddisgeidiaeth athrawon Arameaidd. Yn yr iaith Aramaeg yr ysgrifennwyd y rhan fwyaf o'r Gemara, ac ychydig ohono yn unig yn yr iaith Hebraeg. Ei brif bwrpas oedd esbonio adnodau'r Misna, ond y mae gwahaniaeth mawr rhwng y gwahanol esboniadau, ac y mae hyn yn amlwg os cymherir y Gemara Palestinaidd a'r Gemara Babilonaidd, hynny yw, rhaniadau'r Talmwd.

Yn aml cyfeirir at y Talmwd fel 'môr y Talmwd'. A dyma ydyw yng ngolwg yr Iddew — y mae'n ddifoesur yn ei led ac yn ddiwaelod yn ei ddyfnder. Fel y môr ei hun, y mae yn y Talmwd ddyfnderau o ddirgelwch ac ystyron cudd nas darganfuwyd hyd y dydd heddiw. Ond rhoddir i'r Talmwd le parchus ymhlith llenyddiaeth grefyddol Iddewiaeth a dywedir iddo fod yn nerth a chynhaliach i'r Iddewon ar hyd yr oesoedd, ac iddo'u diogelu hwy, yn fwy felly nag y maent hwy wedi diogelu'r Talmwd. Darlunnir yn y gwaith adnabyddus hwn feddwl a delfrydau Iddewiaeth yn un o'r cyfnodau mwyaf creadigol yn ei hanes, y drydedd ganrif CC hyd y bumed ganrif OC. Y Talmwd yw patrwm y bywyd delfrydol i ddilynwy'r grefydd, a rhoir mynegiant i'r elfen ffurfiol yn eu hymarweddiad ynddo.

A Y SIDDUR

Llyfr gweddi Iddewiaeth yw'r Siddur. Ystyr y gair yw 'trefn' neu 'gynllun' ac y mae'i gynnwys wedi ei drefnu yn ôl trefn gweddïau y gwasanaethau crefyddol. Adlewyrchir ynddo ysbryd a chalonn defosiwn ysbrydol Iddewiaeth o ddyddiau Abraham, 'tad y ffydd', hyd heddiw; y Siddur yw'r drysorfa fwyaf cysegredig o brofiadau ysbrydol Iddewiaeth ar hyd yr oesoedd.

Yn ôl Rabiniaeth, 'gwasanaeth y galon' yw gweddi. Y weddi sylfaenol yw'r SHEMA:

'Clyw, O Israel, yr Arglwydd ein Duw ni sydd un Arglwydd. Câr gan hynny yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, ac â'th holl enaid, ac â'th holl nerth. A bydded y geiriau hyn, yr ydwyf yn eu gorchymyn i ti heddiw, yn dy galon. A hysbysa hwynt i'th blant . . . A rhwym hwynt yn arwydd ar dy law . . . Ysgrifenna hwynt hefyd ar byst dy dŷ, ac ar dy byrth.'

Fel arfer, offrymir y weddi hon ddwywaith bob dydd mewn gwasanaeth ffurfiol, ac ar bob achlysur crefyddol o bwys. Adroddir y SHEMA pan dynnir y Sgrol allan i'w ddarllen, ar deryn y gwasanaeth ar Ddydd y Cymod ac ar awr olaf bywyd. Mor sylfaenol yw'r SHEMA fel mai hi yw pwnc trafod cyntaf y Talmwd.

Gweddi gyfarwydd arall yw'r Ddeunaw Bendith (SHEMONE ESREH) a elwir yn gyffredin yr AMIDAH (sefyll) ar ôl yr arfer o godi ar y traed i adrodd y weddi. Y mae'r weddi yn cyftwrdd â phob agwedd ar fywyd a chrefydd, ac yn datgan mawl i Dduw. Yr AMIDAH yw gweddi sylfaenol gwasanaethau'r synagog a defodau'r prif wyliau, ac nid yw act o ddefosiwn yn gyflawn heb fynegi mawl, deisyfiad a diolchgarwch, tair rhan y weddi hon.

Cwblhawyd y llyfr gweddi cyntaf yn y nawfed ganrif OC gan Rabbi Amran o Sura, ond o hynny ymlaen cynhyrchodd Iddewiaeth nifer o lyfrau gweddi. Ond yr un yw'r drefn — agor â gweddïau'r bore, y prynhawn a'r hwyr, yna gweddïau'r Saboth wythnosol, yr HALLEL (Salmau 113-118), gwasanaeth gŵyl y lleuad newydd, yna'r KIDDUSH (Sancteiddrwydd), wedyn AMIDAH Gŵyl y Pasg, y Pentecost a Gŵyl y Pebyll, ac, yn olaf, gweddïau ar gyfer dyddiau cysegredig. Er cymaint yr amser rhwng y llyfrau gweddi cyntaf a'r rhai olaf, y maent yn rhyfedd am undod eu cynnwys a'u hysbryd. Cyfyrrdir, bron, â phob agwedd ar fywyd crefyddol a dyddiol ynddynt, ac y mae'r llyfrau gweddi, yn nhyb yr Iddew, yn ganllawiau i feithrin yr ysbryd a'r arfer o weddio fel cyfrwng i berffeithio'r bywyd ysbrydol a dyrchafu cymeriad. Dyma enghraifft o weddi am gymorth oddi wrth Dduw i fyw'n dda bob dydd:

'O Arglwydd ein Duw a Duw ein tadau, bydd yn dda gennyf, yn ôl Dy ewyllys, i ddysgu i ni gerdded yn Dy Torah, i lynu wrth Dy orchmynion.

Nac arwain ni i bechod, neu ddrygioni, trosedd, temtasiwn neu gywilydd; na boed i ddymuniad drwg fy meddiannu; cadw ni ymhell oddi wrth y dyn drwg a'r cydymaith drwg; boed i ni lynu wrth feddwl da a chyflawni gweithredoedd da; goresgyn ein dymuniad er mwyn iddo ei gynnig ei hun i ti, a boed i ni dderbyn y dydd hwn, a phob dydd, ras a daioni a thrugaredd yn Dy lygaid Di, ac yn llygaid pob un a'n gwêi; a rho i ni Dy

drugareddau cariadus. Bendigedig wyt Ti, O Arglwydd, yr Hwn wyt yn tywallt trugareddau ar Dy bobl Israel.'

B ESBONIADAU RASHI

Rhydd Iddewiaeth le blaenllaw i esboniadau Rashi. Esboniadau Beiblaidd yw'r rhain, ac ystyrir eu bod yn hanfodol o safbwynt astudio a deall y Beibl a'r Talmwd.

Ganed Rashi yn Troyes, Ffrainc, yn 1040. Cafodd ei addysg gynnar yn Worms cyn dychwelyd i Troyes fel rabbi. Wedyn bu'n ysgrifennu esboniadau ar lyfrau'r Beibl a'r Talmwd. Derbyniwyd yr esboniadau â brwdfrydedd, a rhoddwyd hwy ochr yn ochr â'r TORAH i'w hastudio yn addysg grefyddol yr Iddew. Dyna pahan y cyfeirid at Rashi fel 'athro Israel'.

Datblygodd Rashi ei ddull ei hun o gynllunio esboniadau ar y Beibl. Ei ddull oedd cynnig ystyr lythrennol y testunau Beiblaidd, a rhoi esboniad rhydd arnynt. Yn ogystal, cynlluniodd nodiadau pregethwrol, ac esboniadaeth a oedd yn seiliedig ar ei brofiad personol. Ei brif nod oedd datguddio a goleuo gwirioneddau tragyddol, ac egluro dyfnder a phrydferthwch dysgeidiaeth y Beibl. Ei safbwynt oedd y dylid darllen ac astudio'r Beibl yn ystyriol, gan ganolbwyntio ar ei wir ystyr a'i arwyddocâd. Rhoddodd sylw manwl i darddiad ac ystyr geiriau, i ramadeg ac arddull y Beibl. Sylweddolodd y pwysigrwydd o wybod beth yw arwyddocâd y geiriau Beiblaidd a'u cysylltiadau. Am fod y geiriau yn cyflwyno athroniaeth ddofn am natur bywyd, ac yn darlunio ffordd o fyw i'r Iddew, dylai wybod y rhesymau am eu defnyddio.

Dysgodd Rashi nad oes dim yn digwydd heb fod iddo bwrpas. Y mae rheswm i bob peth a ddigwydd i ddyn, ac y mae i bob profiad ei arwyddocâd a'i gysur. Y mae had pob digwyddiad sydd i ddod yn y presennol; y mae cysgod y dyfodol yn llechu yn y presennol. Pan waredodd Duw Ei bobl o gaethiweid yr Aifft, yr oedd dyfodol y genedl yng nghrombil y weithred honno. Pwysleisiodd gweithred achubol Duw frainc a swyddogaeth genhadol Israel fel cenedl etholedig.

Yn ogystal â dysgu bod pwrpas i bopeth a greodd Duw, credai Rashi hefyd na ddylid esgeuluso addysg grefyddol plentyn. Credai fod llwyddiant yn peryglu'r bywyd ysbrydol, am fod dyn yn debyg o esgeuluso'i ddyletswyddau yng nghanol ei lwyddiant. Hefyd y mae cyflawni mân bechodau yn andwyo ac yn tansellio sylfeini moesol bywyd. Y mae ar y dyn sy'n gwrthod rhoi cymorth i arall angen cymorth ei hun.

Gellir dweud bod esboniadau Rashi wedi gwneud y Beibl yn llyfr byw i'r Iddew. Cododd awydd ynddo i'w astudio'n fwy trwyadl, a hefyd i lynu wrth ei wirionedd. Ysbrydolodd ei waith genhedlaeth

newydd o esbonwyr, a pheri bod astudiaeth sanctaidd yn elfen bwysig yn nyletswydd y crefyddwr. Ar yr un pryd rhoddodd amlygrwydd newydd i draddodiadau a dysgeidiaeth Iddewiaeth, a phoblgeiddiodd ei hyfforddiant moesol ac ymarferol. Cyfyrrddodd dylanwad Rashi â phob agwedd ar Iddewiaeth, a hyd heddiw y mae esboniadau Rashi, yn nhyb yr Iddew, yn arfhanfodol i unrhyw un sydd am dreiddio i ddirgelion dysgeidiaeth y Beibl a'r Talmwd.

C LLYFRAU ERAILL

Nid oes angen i ni grybwyll pob gwaith a werthfawrogrir gan Iddewon crefyddol, ond dylid crybwyll un gwaith clasurol, sef gwaith yr athronydd nodedig Moses Maimonides (1134-1204), *Cyfarwyddyd i'r Rhai mewn Cyfyng-gyngor*, llyfr a werthfawrogrir gan Iddewon hyd heddiw.

Maimonides yw athronydd enwocaf Iddewiaeth, ac yn ei lyfr enwog y mae'n cynnig her i grefydd ac esboniadaeth lythrennol o'r Beibl o du athroniaeth. Y mae'r awdur yn anelu at gryfhau ffydd a chysuro ffyddloniaid yn wyneb ymosodiadau arnynt gan athronwyr a gwyddonwyr. Ei brif safbwynt yw na ddylid ofni ymosodiadau o du rhesymeg meddyliol. Ni wêl dyndra o gwbl rhwng crefydd a rhesymeg iach, nac unrhyw wrthdrawiad rhwng crefydd bur a gwybodaeth oleuedig, rhwng crefydd a gwyddoniaeth. Cyfrifir llyfr Maimonides yn un o glasuron Iddewiaeth.

Dyma enghraifft o arddull a meddwl Maimonides:

'Y mae'r Ysgrhythur yn cefnogi'r ddamcaniaeth fod y bydoedd yn fyw ac yn ystyriol, hynny yw, eu bod yn gallu amgyffred pethau. Nid ydynt, fel y cred pobl anwybodus, yn dalpiau difywyd fel tân a phridd, ond y maent, fel y dywed yr athronwyr, yn llawn o fywyd ac yn gwasanaethu eu Harglwydd, yr Hwn y maent yn ei fawrhau ac yn ei ogoneddu; cymrwch, "Y nefoedd sydd yn datgan gogoniant Duw" (Salm 19 : 1). Y mae'n anghywir iawn meddwl mai ymadrodd trosiadol yw hwn, gan na ddefnyddir y berfau *datgan* a *mynegi*, pan unir hwy â'i gilydd yn yr Hebraeg, ond am fodau meddyliol.'

Yn y canrifoedd dilynol cyfoethogwyd y traddodiad llenyddol gan frwdfrydedd olyniaeth o lenorion dawns a goleuedig a geisiodd esbonio'r hen wirioneddau sylfaenol mewn dulliau newydd i ateb gofynion diwylliant, athroniaeth a gwyddoniaeth gyfoes. Amcanent at gyflwyno Iddewiaeth fel crefydd fyw sy'n berthnasol i bob oes. Yn y ddeunawfed ganrif amddiffynnodd Moses Mendelssohn (1728-86) ffydd yr Iddew yn modolaeth Duw, rhagluniaeth ddwyfol ac anfarwoldeb yr enaid ag argyhoeddiad cadarn, ond heb golli golwg ar ei pherthynas â'r dulliau newydd o feddwl yn ei gyfnod. Taniodd

Mendelssohn ddychymyg a brwdfrydedd carfan o ddisgyblion, gan eu symbylu i gadw'r tân i losgi, ac o ganlyniad cynyrchodd Iddewiaeth gnwd ffrwythlon o lenyddiaeth ddefosiynol, esboniadol ac athronyddol. Yn ein canrif ni cafodd Iddewiaeth hyrwyddwr hynod o fedrus yn y diwinydd Martin Buber (1878-1965). Trwy ei ysgrifau gafaelgar galwodd ar ei gyd-genedl i lynu'n gyndyn wrth eu hetifeddiaeth ysbrydol, a thystiolaethu gerbron y byd bod cyfiawnder a thrugaredd yn sylfaen i wir genedlaetholdeb, ac yn symbyliad i warchod y wladwriaeth a roddwyd yn nwylo'r genedl etholedig.

PENNOD 4

DYSGEIDIAETH

Dywedwyd eisoes mai'r Beibl yw sylfaen gadarn dysgeidiaeth Iddewiaeth. Thema fawr y Beibl yw hunan-ddatguddiad Duw trwy'i waith gwaredigol. Y mae uchafbwynt i'r datguddiad hwn, a'r uchafbwynt yw cyfamed Duw â'i bobl etholedig. Gellir dweud mai cyfuniad yw'r ddsgeidiaeth hon o ddwy elfen:

Sefydlu a selio'r cyfamed rhwng Duw ac Israel;
amodau'r cyfamed a'i gyflawniad.

Sylfaen, ysbrydiaeth a chyfrwng y ddsgeidiaeth yw'r cyfamed; y cyfamed a benderfynodd natur y ddsgeidiaeth, ac y mae'n amhosibl gwerthfawrogi'i harwyddocâd ond yng nghyd-destun y cyfamed hwn. Hunan-ddatguddiad Duw, felly, yw hanfod dysgeidiaeth y grefydd hon. Amlygir y gwirionedd hwn yn y Beibl o'r dechrau: canlyniad i ddatguddiad Duw yw gwir hanfod dysgeidiaeth y grefydd Iddewig. Dysgeidiaeth ddatguddiedig ydyw yn ei hanfod, neu ddsgeidiaeth a ffurfiwyd gan weithred Duw yn datguddio'i fwriadau i Israel. Nid damcaniaeth feddyliol neu gyfres o osodiadau haniaethol am Dduw a bywyd mo'r ddsgeidiaeth; nid casgliad o ddoethineb yr oesoedd ydyw ychwaith, ond, canlyniad ymyrraeth ddwyfol â byd dynion. Eto i gyd, ni ddylid meddwl am y ddsgeidiaeth mewn cyd-destun hanesyddol yn unig, oblegid y mae Iddewiaeth yn ei harddel o hyd fel ffynnon fywiog o ysbrydiaeth, ac fel arweiniad digonol ar gyfer bywyd yn ei grynswth.

Y mae'r dull o gyflwyno'r ddsgeidiaeth yn y Beibl ac mewn llenyddiaeth Iddewig yn gweddu'n naturiol i ansawdd meddwl yr Iddew. Yn ei olwg, agwedd ar ei berthynas bersonol, ei gyfathrach fyw â'i Dduw, yw dysgeidiaeth ei grefydd. Felly nid dadansoddiadau oeraidd neu resymeg moel ydyw cynnwys y ddsgeidiaeth, ond ymwybyddiaeth fyw o berthynas unigryw. Nid yw'r ddsgeidiaeth